# ateb: Cost Rhent a Thaliadau Gwasanaeth 2024/25

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*

## Pam cynnal yr adolygiad hwn?

### Pwrpas y thema:

Mae ateb am gael gwybod gan ei gwsmeriaid a ydynt yn teimlo bod eu rhent a'u taliadau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian.

### Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg?

Rhwng diwedd mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2024.


### Diolch am eich cymorth

Cawsom wybodaeth gan **235** o'n cwsmeriaid. (Cawsom **434** o ymatebion y llynedd.)

## Eich barn chi...


Dyma'r ymatebion a gawsom (caiff canlyniadau'r llynedd eu dangos mewn cromfachau er mwyn gallu cymharu):

Wedi ateb: **235 (432)** Wedi symud ymlaen: **0 (2)**




Wedi ateb: **235 (430)** Wedi symud ymlaen: **0 (4)**

## 2. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich taliadau gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian?





We di ateb: **235 (423)** Wedi symud ymlaen: **0 (11)**

## 3. Sut rydych yn talu eich rhent?



Wedi ateb: 179 (235)    Wedi symud ymlaen: 48 (0)




## *Dyma rai o'r sylwadau a gawsom*

### Gwerth am arian — taliadau gwasanaeth

"Ddim yn siŵr beth yw diben fy nhâl gwasanaeth"

"Ddim yn hapus â'r gwasanaethau garddio. Maent yn cymryd 4 munud yn union i dorri'r borfa i gyd."

"Er bod tâl yn cael ei godi am drydan yn yr ardaloedd cyffredin, dyw'r golau allan erioed wedi gweithio yn ystod bron y pum mlynedd yr wyf wedi bod yn byw yma! Yn ogystal, nid yw ateb yn darparu teledu cylch cyfyng, sy'n dâl gwasanaeth arall."

"Rwy'n teimlo bod y taliadau gwasanaeth yn rhy ddrud am yr hyn rwy'n ei gael. Anaml y mae'r glaswellt yn cael ei dorri, a dyw'r gwaith ddim o safon uchel iawn."

"Gellid arbed arian ar y tâl am drydan yn yr ardaloedd cyffredin. Mae yna olau allan sydd ymlaen DRWY'R NOS. Gellid trefnu bod y golau'n dod ymlaen wrth i synhwyrydd ymateb i symudiadau."

"Dydw i ddim yn deall y tâl gwasanaeth am reoli plâu."

"Helpodd fi i gael dodrefn a charpedi — diolch yn fawr iawn."

"Mae angen rheoli'r gwres yn yr ardaloedd cyffredin."

"Dylai taliadau gwasanaeth gael eu cynnwys yn y rhent — ni ddylent fod yn rhywbeth ychwanegol."

"Rwy'n talu am ryw gysylltiad Freeview — dwi erioed wedi'i ddefnyddio — dwi ddim hyd yn oed yn gwybod ble mae e'."

## Gwerth am arian — gwaith atgyweirio

"Byddai'n wych pe bai gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau cyn pen cyfnod addas — mae gennym waith atgyweirio ar y gweill, nad yw wedi'i gwblhau ers 2 flynedd ac ers 6 mis."

"Does dim gwaith adnewyddu priodol yn cael ei wneud i'r tŷ. Mae popeth yn hen ac wedi dyddio'n ofnadwy."

"Mae'r gwasanaethau at ei gilydd yn cynnig gwerth da am arian, er enghraifft y tîm atgyweirio a'r tîm sy'n rhoi gwasanaeth i'r boeler."

"Nid yw gwaith atgyweirio'n cael ei gyflawni'n effeithiol, o ystyried y pris."

## Fforddiadwyedd

"Er ei fod yn cynnig gwerth am arian, mae'r rhent yn cael ei gynyddu gymaint ag sy'n bosibl bob blwyddyn, sy'n fy ypsetio pan fydd gwaith atgyweirio'n cael ei gyflawni mor araf."

"Dydw i ddim am weld y rhent yn codi, oherwydd mae'n anodd gan fod costau byw yn codi mor gyflym."

"Mae'r rhent yn codi'n aml, ac rwy'n poeni y byddaf yn cael trafferth ei dalu cyn bo hir."

"Mae'n ymddangos ei fod yn codi'n eithaf aml. Dydw i ddim yn cael help ariannol i dalu fy rhent, ac rwy'n poeni ynghylch sut y byddaf yn ei dalu yn y dyfodol."

"Dyw e' ddim yn cael ei adlewyrchu mewn codiadau cyflog. Mae'n ormod, o ystyried costau byw, yn enwedig pan fyddwch yn ennill ychydig dros y trothwy ar gyfer hawlio unrhyw fudd-daliadau."

"Rhentu gydag ateb sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl fel fi, oherwydd mae'n disgyn rhwng rhenti drud preifat a rhenti

fforddiadwy sy'n cynnig y gwerth gorau am arian gan landlordiaid mwy cyfrifol."

"Mae'r rhent yn rhy ddrud pan na fyddwch yn darparu digon o ystafelloedd gwely ar gyfer y

bobl sy'n byw yn yr eiddo. Mae'r rhestr aros am dai â 4 neu 5 ystafell wely'n rhy hir... sy'n golygu bod eich eiddo'n orlawn."

## Arall

"Alla i ddim cael signal digonol ar gyfer y rhyngrwyd yn fy adeilad i. Mae'r gwasanaeth yn wael. Yn ogystal, rydw i wedi ceisio newid fy mesurydd er mwyn cael mesurydd clyfar, oherwydd fy mod yn talu wrth fynd. Cefais wybod nad oes signal ar gael. Mae gan fflatiau eraill yn yr adeilad signal, ond does gen i ddim. Dydw i ddim yn credu fy mod yn cael gwasanaeth da."


"Rwy'n fodlon iawn â'r gost, ac mae tîm y gymdeithas dai yn ateb yn wirioneddol wych."

"Fflat, staff, decor a phrydau bwyd hyfryd, ac rwy'n teimlo yn ddiogel ac yn gynnes."

"Po hynaf yr ydych yn mynd, yr anoddaf yw hi."

"Mae'r codiadau'n annheg ar gyfer eiddo rhanberchnogaeth."

Wedi ateb: **234 (429)** Wedi symud ymlaen: **1 (5)**




## Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn

Angen cael gwybod mwy neu godi mater?

**Anfonwch ebost atom:** engage@atebgroup.co.uk

**Ewch i'n gwefan:** www.atebgroup.co.uk

**Ffôn/Neges destun/WhatsApp:** 07500 446611 / 01437 774766

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*